Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

# Cofnodion Cryno ar gyfer eu cyhoeddi o gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025

CYMERADWYWYD

**Yn bresennol:** Mike Usher (Aelod Annibynnol a Chadeirydd)
Dave Tosh (Aelod Annibynnol ac Is-gadeirydd)
John McSherry (Aelod Annibynnol)
Laura Davies (Aelod Annibynnol)
Jayne Woods (Aelod Annibynnol)
Jane Martin (Aelod Annibynnol) (ar-lein)

**Hefyd yn Bresennol:** Michelle Morris (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru)
Simon Hart (Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Adnoddau Corfforaethol)
Katrin Shaw (Cyfarwyddwr Gweithredol Gwaith Achos a Chyfreithiol)
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth
Rheolwr Cyllid
TIAA – archwilwyr mewnol
Archwilio Cymru – archwilwyr allanol
Pennaeth Cwynion Gwasanaethau Cyhoeddus
Partner Busnes Adnoddau Dynol
Cofnodwr

## 1. Gair o Groeso a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y PASR a rhoddwyd cyflwyniadau i'r rhai nad oeddent wedi bod yn bresennol o'r blaen.

1.2 Datganodd y Cadeirydd fuddiant ar gyfer Eitem 8 gan ei fod wedi bod yn aelod o'r gweithgor a oedd yn edrych ar gyhoeddi cofnodion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Gan nad oedd y buddiant yn rhwystro'r Cadeirydd rhag cymryd rhan yn unol â Polisi OGCC ar Ddatgan Buddiannau i Aelodau Annibynnol, roedd y Cadeirydd yn gallu cymryd rhan yn y drafodaeth ar Eitem 8.

## 2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chworwm

2.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2.2 Cadarnhawyd bod cworwm yn y cyfarfod fel y nodir yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor.

## 3. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2025

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2025.

## 4. Materion yn Codi (nad ydynt fel arall ar yr agenda) a Chofnod o'r Camau Gweithredu

4.1 Nodwyd y Materion yn Codi a'r Cofnodion Gweithredu gan y Pwyllgor.

**5. Materion Archwilio Mewnol**

5.1 **Argymhellion Archwilio Mewnol – Adroddiad Cynnydd**

Nid oedd unrhyw Argymhellion Archwilio Mewnol i'w nodi.

5.2 **Adroddiad ar Gynnydd yr Archwiliad Mewnol (SICA)**

5.2.1 Cyflwynodd TIAA Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol (SICA). Nodwyd y rhestr o archwiliadau sydd ar y gweill gyda'r un cyntaf wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mehefin 2025.

5.3 **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024/25**

5.3.1 Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024/25 a oedd yn nodi bod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 'brosesau rheoli, gweithredu rheolaethau a llywodraethu risg rhesymol ac effeithiol', sef y lefel uchaf o sicrwydd blynyddol cyffredinol y gellid ei rhoi.

5.3.2 Roedd dau argymhelliad pwysig a phum argymhelliad arferol wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn, ac roedd y rheolwyr wedi derbyn pob un ohonynt, ac roedd yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol wedi cael eu cyflawni.

5.4 **Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol Drafft 2025/26 (gan gynnwys y Siarter Archwilio)**

5.4.1 Ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2025/26 a nododd fod cymeradwyo'r Cynllun yn cynnwys cymeradwyo'r Siarter Archwilio.

5.4.2 Nod y Strategaeth a'r Cynllun oedd edrych ar risgiau'r darlun mawr (cyllid, seiberddiogelwch, ystyriaethau deallusrwydd artiffisial) ac wrth fynd tuag at 2030, byddai cynaliadwyedd yn dod yn fwy o nodwedd.

**6. Materion Llywodraethu a Risg**

**6.1 Adroddiad Risg a'r Gofrestr Risg**

6.1.1 Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Risg a'r Gofrestr Risg a thrafododd y newidiadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf a nodwyd yn yr adroddiad eglurhaol.

6.2 **Ystyriaeth fanwl o risg allweddol - Agweddau Staff a Diogelwch Seicolegol**

6.2.1 Rhoddodd y Partner Busnes Adnoddau Dynol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am broses a chanlyniadau'r arolwg staff diweddar.

6.2.2 Llongyfarchodd y Pwyllgor OGCC ar gyfradd ymateb nodedig a sgoriau cadarnhaol iawn yr arolwg yn gyffredinol.

6.3 **Diweddariad ar Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol a'r Gwersi a Ddysgwyd**

6.3.1 Nododd y Pwyllgor y diweddariad ar gwblhau gwaith i gydymffurfio ag Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol a'r Gwersi a Ddysgwyd. Nodwyd ymhellach bod yr Ombwdsmon wedi ymrwymo i roi diweddariad llawn ar yr Adolygiad Annibynnol a'r camau gweithredu sy'n deillio ohono yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol ac yn sesiwn graffu'r Senedd ym mis Hydref.


CYMERADWYWYD

6.4 **Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth**

6.4.1 Rhoddodd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd gyda hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff o ddolenni gwe-rwydo a llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall polisïau.

6.5 **Datganiad Llywodraethu Drafft**

6.5.1 Nododd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu drafft

6.5.2 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod ef a'r archwilwyr mewnol ac allanol wedi cynnal eu cyfarfod blynyddol cyn cyfarfod PASR ac nad oedd unrhyw faterion a oedd yn peri pryder wedi cael eu codi.

**7. Materion archwilio ariannol ac allanol**

7.1 **Argymhellion Archwilio Allanol**

7.1.1 Nid oedd unrhyw argymhellion archwilio allanol i'w nodi.

7.2 **Archwilio Allanol – Cynllun Archwilio 2024/25**

7.2.1 Cyflwynodd Archwilio Cymru Gynllun Archwilio 2024/25 a oedd yn adlewyrchu fformat ychydig yn wahanol i flynyddoedd blaenorol.

7.3 **Ymholiadau Archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheolaeth**

7.3.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr ymateb i lythyr Ymholiadau Archwilio Cymru a oedd wedi'i gwblhau i adlewyrchu'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 a thynnwyd sylw at y ffaith na fu unrhyw newidiadau mawr ers y llynedd.

7.4 **Monitro Ariannol ac Alldro Dangosol 2024/25**

7.4.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad Monitro Ariannol a'r Alldro Dangosol ar gyfer 2024/25 a chytunodd y cyflawnwyd sefyllfa diwedd blwyddyn dda.

**8. Materion PASR a rheoli Pwyllgor**

8.1 **Materion eraill y mae angen adrodd arnynt i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

8.1.1 Nododd y Pwyllgor y Materion y mae angen adrodd arnynt i PASR.

8.2 **Cyhoeddi Cofnodion Cyfarfodydd PASR**

8.2.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnig i gyhoeddi cofnodion PASR ar wefan OGCC. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau'n ddiweddar ar yr egwyddorion ar gyfer cyhoeddi Cofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio ac er mai canllawiau yn unig yw'r ddogfen, mae hyn yn rhoi cyfle i OGCC ystyried ei agwedd ei hun tuag at gyhoeddi cofnodion PASR.

8.2.2 Y cynnig oedd cadw set fanwl o gofnodion at ddefnydd mewnol ond cyhoeddi crynodeb o'r trafodaethau. Nodwyd ymhellach bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r dull hwn ac mai dim ond ar ôl eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf yr oedd eu cofnodion cryno yn cael eu cyhoeddi.

8.2.3 Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi cofnodion cryno o gyfarfodydd PASR yn y dyfodol ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

**9. Unrhyw Fater Arall**

9.1 **Cyfarfod Gorffennaf 2025 –** Byddai gweithdy ar y cyd rhwng PASR a'r Panel Cynghori ym mis Gorffennaf.

## 10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

10.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cael ei gynnal yn swyddfeydd OGCC ddydd Mercher, 23 Gorffennaf 2025.

*******************************************************************

CYMERADWYWYD